# LC1456

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** | **LEGISLATION COMMITTEE REPORT** |

## Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2007

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/33/EC drwy ddiweddaru'r diffiniad o "Directive 95/45/EC" sy'n ymddangos yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995 i adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i'r Gyfarwyddeb honno gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2006/33/EC.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Mae'r ail gronicliad yn cyfeirio at adran 48(4A) o Ddeddf Safonau Bwyd 1990 yn y testun Saesneg, ond at adran 48(4) yn y testun Cymraeg. Mae cynnwys y paragraff yn dangos mai'r testun Saesneg sy'n gywir. Gan nad yw'r rhan hynny'n rhan weithredol o'r Gorchymyn, credir bod modd cywiro'r mân wall teipograffyddol hwn wrth gyhoeddi'r Gorchymyn.

### David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**13 Chwefror 2007**